# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES

**(Committee Rooms A/B - Neath Civic Centre)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 5 Medi 2019**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd** L.M.Purcell |
| **Cynghorwyr**: | A.P.H.Davies, O.S.Davies, S.Paddison, D.Whitelock, A.N.Woolcock, C.Edwards, W.F.Griffiths, H.C.Clarke a/ac N.J.E.Davies |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Jarrett, A.J.Thomas, D.Berni, K.Wedmore, S.Jenkins, C.Howard, M.Weaver, D.Harding, D.Tiddy, D.Cole, A.Davies, A.Turner, M.Selby, S.Curran and J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr P.D.Richards and A.R. Lockyer |
| **Arsylwyr:** | Cynghorydd J.D.Morgan |

## 1. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir.

## 2. MESURAU LEFEL UCHEL Y GWASANAETHAU PLANT, POBL IFANC AC ODEOLION (CHWARTER 1)

Derbyniodd Aelodau drosolwg o Fesurau Lefel Uchel y Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion - Chwarter 1, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Amlygodd Aelodau fod angen eglurhad pellach ar y meysydd canlynol:

- Beth oedd achos yr absenoldebau a oedd yn ymwneud â straen? Eglurwyd bod hyn oherwydd materion personol, nid gwaith

- Pam roedd y beichiau achosion yn is ond salwch yn uwch? Roedd hyn oherwydd oedi wrth goladu data; mae llai o salwch yn awr.
- Mewn perthynas ag Atodiad 1, Tudalen 17, gofynnodd Aelodau am gynnwys y ffigurau ar gyfer cyfanswm y staff yn y graff fel y gallai Aelodau ddeall effaith y data'n well.
- Beth oedd y diffiniad am salwch tymor hir? Roedd hyn yn gyfnod o dros 4 wythnos a chafwyd y rhan fwyaf o achosion yn y Gwasanaethau i Oedolion oherwydd anafiadau codi.
- Gofynnodd Aelodau i swyddogion ymchwilio i'r rheswm dros y gostyngiad yn nifer y goruchwyliadau a gafwyd.
- Beth sydd wedi'i roi ar waith i fynd i'r afael â'r ffaith mai ychydig iawn o wybodaeth a roddir gan ofalwyr maeth allanol i egluro'r rhesymau pam roedd lleoliadau'n methu? Esboniodd swyddogion fod y mater hwn wedi'i godi gyda'r swyddogion perthnasol a'i fod yn rhan o'r ymweliadau gan weithwyr cymdeithasol, y mae nifer o rwystrau a gwrthbwysau'n eu hwynebu. Eir ar drywydd hyn fel rhan o'r cynllun gweithredu ôl-archwiliad.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

## 3. DEWIS EITEMAU PRIODOL O AGENDA CYN CRAFFU BWRDD Y CABINET (ADRODDIADAU BWRDD Y CABINET YN AMGAEEDIG AR GYFER YR AELODAU CRAFFU)

Dewisodd y Pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Astudiaeth Dichonoldeb Cartref Gofal Preswyl Trem y Glyn

Derbyniodd y pwyllgor wybodaeth am y cynnig i gynnal astudiaeth dichonoldeb i'r opsiynau o gadw cartref gofal Trem y Glyn ar agor ar ôl 2022 fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Eglurwyd bod yr astudiaeth dichonoldeb yn ymwneud â chartref Trem y Glyn yn unig. Roedd hyn yn rhan o gynllunio ar gyfer y dyfodol ac edrych ar amrywiaeth o ffyrdd o gefnogi pobl ag anghenion gwahanol.

Gofynnodd y pwyllgor a fyddai'r gwerthusiad yr un peth â'r hyn a gynhaliwyd yn flaenorol lle nodwyd bod yr angen am ofal preswyl yn

lleihau. Eglurwyd mai'r strategaeth oedd wedi newid o Daliadau Uniongyrchol i ddatblygu opsiynau ychwanegol ar gyfer gofal preswyl.

Rhoddwyd cadarnhad bod yr holl geisiadau allanol a mewnol am ofal wedi'u cofnodi ac roedd data ar gael am y niferoedd.  Roedd y galw'n uchel ar hyn o bryd.
Dewisodd y Pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Astudiaeth Dichonoldeb Cartref Gofal Preswyl Trem y Glyn

Derbyniodd y pwyllgor wybodaeth am y cynnig i  gynnal astudiaeth dichonoldeb i'r opsiynau o gadw cartref gofal Trem y Glyn ar agor ar ôl 2022 fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Eglurwyd bod yr astudiaeth dichonoldeb yn ymwneud â chartref Trem y Glyn yn unig.  Roedd hyn yn rhan o gynllunio ar gyfer y dyfodol ac edrych ar amrywiaeth o ffyrdd o gefnogi pobl ag anghenion gwahanol.

Gofynnodd y pwyllgor a fyddai'r gwerthusiad yr un peth â'r hyn a gynhaliwyd yn flaenorol lle nodwyd bod yr angen am ofal preswyl yn lleihau. Eglurwyd mai'r strategaeth oedd wedi newid o Daliadau Uniongyrchol i ddatblygu opsiynau ychwanegol ar gyfer gofal preswyl.

Rhoddwyd cadarnhad bod yr holl geisiadau allanol a mewnol am ofal wedi'u cofnodi ac roedd data ar gael am y niferoedd.  Roedd y galw'n uchel ar hyn o bryd.

Roedd aelodau'n hapus â'r cynnig i'w ystyried heddiw ac yn edrych ymlaen at ganlyniad yr astudiaeth dichonoldeb i'w ddatgelu mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Adroddiad Perfformiad y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a'r Gwasanaethau i Oedolion - Chwarter 1 (Ebrill 19 – Mehefin 19).

Derbyniodd yr Aelodau drosolwg o ddata perfformiad y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a'r Gwasanaethau i Oedolion ar gyfer y Chwarter 1af, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Roedd y pwyllgor yn falch bod y ganran o ymholiadau o ran Oedolion Mewn Perygl a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod wedi cynyddu.

Codwyd yr ymholiadau canlynol gan yr Aelodau:

- Roedd nifer y defnyddwyr gwasanaeth yn yr ysbyty sy'n aros i ofal cymdeithasol gael ei drefnu ar eu cyfer cyn iddynt allu gadael wedi cynyddu. Pam? Hefyd, beth fyddai effaith y newidiadau i'r Gwasanaeth Cartref ar y ffigurau? Eglurwyd y bu cynnydd yn y niferoedd oherwydd pwysau'r gaeaf a staff yn cymryd gwyliau erbyn diwedd mis Medi/Hydref. Roedd hyn wedi arwain at niferoedd uchel. Byddai gwelliant yn y chwarter nesaf. O ganlyniad i'r adolygiad o'r gwasanaeth roedd mwy o staff ac adnoddau i allu ymdrin â phobl ag anghenion cymhleth.
- Gofynnodd Aelodau a ellid ychwanegu'r niferoedd o bobl sy'n aros am asesiad neu ailasesiad o angen at Adroddiad Mesurau Lefel Uchel y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a'r Gwasanaethau i Oedolion i'w monitro.
- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r Adroddiad am y Grant Cyfleusterau i'r Anabl a gyflwynwyd yn flaenorol yn cael ei gyflwyno eto i'r pwyllgor.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

<u>Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Bae'r Gorllewin 2018 -19</u>

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai Bwrdd Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles y Cabinet yn ystyried gohirio'r eitem hon. Nid oedd swyddog o Fwrdd Partneriaeth Bae'r Gorllewin ar gael i gyflwyno'r adroddiad. Byddai'r Cadeirydd Craffu Gofal Cymdeithasol Iechyd a Lles yn ysgrifennu at Fae'r Gorllewin i ofyn am sicrwydd y bydd cynrychiolydd yn cyflwyno'r adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol. Bydd cwestiynau gan y Pwyllgor Craffu yn cael eu cynnwys yn y llythyr.

<u>Polisi Rheoli Ymddygiad Hillside</u>

Derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth am Bolisi Rheoli Ymddygiad Hillside fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Cafwyd trafodaeth am y rheswm pam na chwblhawyd cofnodion rheoli, atal neu ddisgyblu'n ddi-oed yn hytrach nag o fewn 24 awr. Esboniodd swyddogion fod y dogfennau'n cael eu cwblhau cyn gynted ag y bo modd, ond y gofyniad statudol oedd eu bod yn cael eu cwblhau o fewn 24 awr oni bai fod amgylchiadau eithriadol.

Pwysleisiodd yr Aelodau eu pryder gan ofyn a fyddai Bwrdd Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles y Cabinet yn ystyried diwygio'r polisi i ddweud bod yr holl gofnodion rheoli, atal a disgyblu'n cael eu cwblhau cyn gynted ag y bo modd ac o fewn 24 awr o'r digwyddiad fan bellaf oni bai fod amgylchiadau eithriadol.

Rhoddwyd sicrwydd bod y cymarebau staff cywir ar waith a bod yr Uwch-dîm Rheoli'n rhoi gwybod am unrhyw newidiadau.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet, yn amodol ar y diwygiad canlynol:

Bydd tudalen 157 o'r polisi fel y'i hatodir i'r adroddiad a gylchredwyd o dan Y Rheolwr Cofrestredig (RhC) yn sicrhau y caiff pwynt bwled 7 ei ddiwygio i nodi bod yr holl gofnodion ar reoli, atal a disgyblu'n cael eu cwblhau'n llawn cyn gynted â phosib, ac o fewn 24 awr o'r digwyddiad oni bai fod amgylchiadau eithriadol
.
Roedd aelodau'n hapus â'r cynnig i'w ystyried heddiw ac yn edrych ymlaen at ganlyniad yr astudiaeth dichonoldeb i'w ddatgelu mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Adroddiad Perfformiad y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a'r Gwasanaethau i Oedolion - Chwarter 1 (Ebrill 19 – Mehefin 19).

Derbyniodd yr Aelodau drosolwg o ddata perfformiad y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a'r Gwasanaethau i Oedolion ar gyfer y Chwarter 1af, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Roedd y pwyllgor yn falch bod y ganran o ymholiadau o ran Oedolion Mewn Perygl a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod wedi cynyddu.

Codwyd yr ymholiadau canlynol gan yr Aelodau:

- Roedd nifer y defnyddwyr gwasanaeth yn yr ysbyty sy'n aros i ofal cymdeithasol gael ei drefnu ar eu cyfer cyn iddynt allu gadael wedi cynyddu. Pam? Hefyd, beth fyddai effaith y newidiadau i'r Gwasanaeth Cartref ar y ffigurau? Eglurwyd y bu cynnydd yn y niferoedd oherwydd pwysau'r gaeaf a staff yn cymryd gwyliau erbyn diwedd mis Medi/Hydref. Roedd hyn wedi

arwain at niferoedd uchel. Byddai gwelliant yn y chwarter nesaf. O ganlyniad i'r adolygiad o'r gwasanaeth roedd mwy o staff ac adnoddau i allu ymdrin â phobl ag anghenion cymhleth.

- Gofynnodd Aelodau a ellid ychwanegu'r niferoedd o bobl sy'n aros am asesiad neu ailasesiad o angen at Adroddiad Mesurau Lefel Uchel y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a'r Gwasanaethau i Oedolion i'w monitro.
- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r Adroddiad am y Grant Cyfleusterau i'r Anabl a gyflwynwyd yn flaenorol yn cael ei gyflwyno eto i'r pwyllgor.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Bae'r Gorllewin 2018 -19

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai Bwrdd Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles y Cabinet yn ystyried gohirio'r eitem hon. Nid oedd swyddog o Fwrdd Partneriaeth Bae'r Gorllewin ar gael i gyflwyno'r adroddiad. Byddai'r Cadeirydd Craffu Gofal Cymdeithasol Iechyd a Lles yn ysgrifennu at Fae'r Gorllewin i ofyn am sicrwydd y bydd cynrychiolydd yn cyflwyno'r adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol. Bydd cwestiynau gan y Pwyllgor Craffu yn cael eu cynnwys yn y llythyr.

Polisi Rheoli Ymddygiad Hillside

Derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth am Bolisi Rheoli Ymddygiad Hillside fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Cafwyd trafodaeth am y rheswm pam na chwblhawyd cofnodion rheoli, atal neu ddisgyblu'n ddi-oed yn hytrach nag o fewn 24 awr. Esboniodd swyddogion fod y dogfennau'n cael eu cwblhau cyn gynted ag y bo modd, ond y gofyniad statudol oedd eu bod yn cael eu cwblhau o fewn 24 awr oni bai fod amgylchiadau eithriadol.

Pwysleisiodd yr Aelodau eu pryder gan ofyn a fyddai Bwrdd Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles y Cabinet yn ystyried diwygio'r polisi i ddweud bod yr holl gofnodion rheoli, atal a disgyblu'n cael eu cwblhau cyn gynted ag y bo modd ac o fewn 24 awr o'r digwyddiad fan bellaf oni bai fod amgylchiadau eithriadol.

Rhoddwyd sicrwydd bod y cymarebau staff cywir ar waith a bod yr Uwch-dîm Rheoli'n rhoi gwybod am unrhyw newidiadau.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet, yn amodol ar y diwygiad canlynol:

Bydd tudalen 157 o'r polisi fel y'i hatodir i'r adroddiad a gylchredwyd o dan Y Rheolwr Cofrestredig (RhC) yn sicrhau y caiff pwynt bwled 7 ei ddiwygio i nodi bod yr holl gofnodion ar reoli, atal a disgyblu'n cael eu cwblhau'n llawn cyn gynted â phosib, ac o fewn 24 awr o'r digwyddiad oni bai fod amgylchiadau eithriadol.

4. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD I BENDERFYNU A DDYLID GWAHARDD Y CYHOEDD O'R EITEM GANLYNOL YN UNOL AG IS-ADRAN 100A(4) A (5) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 A'R PARAGRAFFAU EITHRIEDIG PERTHNASOL O RAN 4 ATODLEN 12A Y DDEDDF UCHOD.**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwaherddir y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 13 a 14 Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

5. **DIWEDDARIAD CHWARTEROL GWASANAETHAU CYFIAWNDER IEUENCTID AC YMYRRYD YN GYNNAR CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

Derbyniodd Aelodau drosolwg o ddiweddariad Chwarterol Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Castell-nedd Port Talbot fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a gylchredwyd.

Cynhaliwyd trafodaeth am y Bwrdd Rheoli a oedd newydd ei sefydlu a'r cynnydd a wnaed.

Byddai'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid blynyddol ar gael i Aelodau ei ystyried yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Hefyd, bydd Aelodau'n derbyn adroddiad am y diweddaraf bob 6 mis.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

6. **DEWIS EITEMAU PREIFAT PRIODOL O AGENDA CYN CRAFFU BWRDD Y CABINET (ADRODDIADAU BWRDD Y CABINET YN AMGAEEDIG AR GYFER YR AELODAU CRAFFU).**

Adroddiad y Rheolwr am Gartref Diogel i Blant Hillside

Derbyniodd aelodau wybodaeth am y bobl ifanc, gwybodaeth am staff a chynllunio a datblygu'r gwasanaeth am y cyfnod o 1 Mawrth 2019 i 31 Mawrth 2019 (3 mis) fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a gylchredwyd.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad preifat.

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru)

Derbyniodd y Pwyllgor Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a gylchredwyd.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad preifat

**CADEIRYDD**